

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**Ymchwiliad i bolisi morol yng
Nghymru**

Ionawr 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8639
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Ymchwiliad i bolisi morol yng
Nghymru

Ionawr 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: cynnal, datblygu a chynllunio ar gyfer amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Dafydd Elis-Thomas
(Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



Mick Antoniw
Llafur Cymru
Pontypridd



Keith Davies
Llafur Cymru
Llanelli



Russell George
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



Vaughan Gething
Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth



Llyr Huws Gruffydd
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Julie James
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



William Powell
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



David Rees
Llafur Cymru
Aberafan



Antoinette Sandbach
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru

Roedd yr Aelod canlynol yn bresennol fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Ken Skates
Llafur Cymru
De Clwyd

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Am yr adroddiad hwn	8
Pwrpas	8
Fformat	8
Cynulleidfa	8
Gwybodaeth bellach	8
Beth fydd yn digwydd nesaf?.....	9
2. Cyflwyniad	10
3. Blaenoriaeth ac adnoddau	12
Barn rhanddeiliaid	12
Blaenoriaeth	12
Adnoddau	13
Safbwynt Llywodraeth Cymru	15
Barn y Pwyllgor	16
Blaenoriaeth	16
Adnoddau	17
4. Cynllunio gofodol morol	19
Barn rhanddeiliaid	19
Cynnydd.....	19
Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol	20
Sylfaen Dystiolaeth	22
Cydleoli.....	23
Cysylltiadau trawsffiniol.....	24
Ymgysylltu â rhanddeiliaid.....	25
Safbwynt Llywodraeth Cymru	25
Barn y Pwyllgor	27
Cynnydd.....	27
Rheolaeth integredig ar barthau arfordirol	27
Sylfaen dystiolaeth	27

Cytleoli.....	28
Materion trawsffiniol	28
Ymgysylltu â rhanddeiliaid.....	29
5. Ardaloedd morol gwarchodedig	31
Barn rhanddeiliaid	31
Yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol.....	31
Parthau Cadwraeth Morol	33
Parthau cadwraeth y môr mawr.....	36
Safbwynt Llywodraeth Cymru	38
Yr ardaloedd morol gwarchodedig presennol	38
Cychwyn Rhan V o Ddeddf y Môr	39
Parthau Cadwraeth Morol	39
Barn y Pwyllgor.....	40
Yr ardaloedd morol gwarchodedig presennol	40
Cychwyn Rhan V o Ddeddf y Môr	41
Parthau cadwraeth morol.....	43
Parthau cadwraeth y môr mawr.....	44
6. Trwyddedu morol	45
Barn rhanddeiliaid	45
Blaenoriaeth	45
Barn Llywodraeth Cymru	47
Barn y Pwyllgor.....	47
7. Cyfarwyddbau Ewropeaidd.....	48
Barn rhanddeiliaid	48
Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.....	48
Integreiddio rhwng Cyfarwyddbau.....	49
Barn Llywodraeth Cymru	50
Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.....	50
Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr	51
Cyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi.....	51

Y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar	52
Barn y Pwyllgor	53
Atodiad A - Cylch Gorchwyl	54
Atodiad B - Tystion	55
Atodiad C - Tystiolaeth Ysgrifenedig.....	57

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y byddant yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth uwch i bolisi morol yng Nghymru. (Tudalen 17)

Argymhelliad 2. Erbyn Ebrill 2013, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n dangos ei blaenoriaethau ar gyfer cyflawni ei pholisïau morol. Dylid cynnwys cynllun gweithredu yn y strategaeth hon ar gyfer cyflawni pob amcan polisi. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynnwys y manylion canlynol: (Tudalen 17)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i adnoddau yn ystod y broses o ddatblygu cynllun gweithredu. Dylai Llywodraeth Cymru gael cymorth gan arbenigwyr allanol os yw'n briodol, ond dylai hefyd ystyried a oes angen darparu gwell adnoddau i gyflawni ei rhwymedigaethau statudol ymestynnol. (Tudalen 18)

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol cyn gynted â phosibl, a dim hwyrach nag Ebrill 2014 ac yn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried wrth ddatblygu cynlluniau gofodol morol. (Tudalen 29)

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid i bennu'r ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru. Os bydd cyfle, dylai weithio mewn partneriaeth â diwydiant, canolfannau ymchwil prifysgolion a'r Trydydd Sector i gydgyssylltu gwaith i gasglu data. Rydym yn disgwyl y bydd y ffordd o gyflawni hyn yn cael ei disgrifio mewn ymateb i 'Argymhelliad 2' uchod. (Tudalen 29)

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru, wrth baratoi cynlluniau morol ar gyfer 2015, yn sicrhau ei bod yn barod i symud ymlaen â dull cynllunio ar y cyd mewn ardaloedd trawsffiniol a'i bod yn cydweithio â'r Sefydliad Rheoli Morol fel na chaiff y sefydliad hwnnw ei atal rhag dewis rhanbarth sy'n ffinio ar Gymru ar gyfer ei gynllun nesaf. Er

mwyn sicrhau ei bod mewn lle i wneud hyn dylai Llywodraeth Cymru geisio gwneud concordat neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Sefydliad Rheoli Morol cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na Rhagfyr 2014. (Tudalen 30)

Argymhelliad 7. Erbyn diwedd Mawrth 2013, bod Llywodraeth Cymru yn cwblhau ei gwaith ar ymestyn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig presennol. Rydym yn disgwyl gweld manylion am y ffordd o gyflawni hyn yn ei hymateb i Argymhelliad 2 uchod. (Tudalen 41)

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad am y ffordd y mae'n bwriadu symud ymlaen â'r argymhellion a wnaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ei adolygiad o reolaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae wedi bod yn ystyried adolygiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru ers Gorffennaf 2012 ac rydym yn disgwyl iddi ymateb cyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gael ei ddiddymu. (Tudalen 41)

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn Rhan V o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Rydym yn disgwyl iddi bennu dyddiad ar gyfer ei chychwyn wedi iddi ystyried canfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Ebrill. (Tudalen 43)

Argymhelliad 10. Erbyn 31 Rhagfyr 2013, y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod adroddiad gerbron y Cynulliad o'i gwirfodd sy'n bodloni'r gofyniad yn adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys arfarniad o statws amgylcheddol, llywodraethu a gorfodi mewn ardaloedd morol gwarchodedig presennol. (Tudalen 43)

Argymhelliad 11.

(a) Bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y broses ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol ar y môr mawr ac yn hwyluso trefniadau ar gyfer mewnbwn gan randdeiliaid Cymru i'r prosesau hyn.

(b) Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch y bwriad i greu Parth Cadwraeth Morol yn nyfroedd môr mawr Cymru, bod Llywodraeth Cymru yn ein hysbysu am hyn drwy lythyr ac yn disgrifio'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ystyried buddiannau Cymru.

(Tudalen 44)

Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arbenigedd a phrofiad yr Uned Caniatadau Morol yn cael eu cadw a'u datblygu ac na fydd y gwasanaeth yn lleihau wrth ei drosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru. (Tudalen 47)

Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ei fod yn datblygu darpariaeth ar-lein addas ar gyfer cofrestr gyhoeddus o drwyddedu morol. (Tudalen 47)

1. Am yr adroddiad hwn

Pwrpas

1. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi'r casgliadau y mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi dod iddynt ar sail y dystiolaeth a gafodd yn ystod ei ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru.

Fformat

2. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n themâu allweddol. Ceir brawddeg sy'n crynhoi prif gasgliad y Pwyllgor o dan y teitl i bob thema. Mae pob thema'n cynnwys:

- crynodeb o'r dystiolaeth a gafwyd oddi wrth randdeiliaid;
- dehongliad y Pwyllgor o safbwynt Llywodraeth Cymru;
- barn y Pwyllgor;
- unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn eu gwneud.

Cynulleidfa

3. Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw hwn ac mae'n cofnodi argymhellion sydd wedi'u rhoi i Lywodraeth Cymru.
4. Y bwriad yw y bydd pawb sy'n ymddiddori mewn polisi morol yng Nghymru'n ei gael yn hawdd ei ddeall.
5. Oherwydd hyn, cymerir bod gan y darllenydd wybodaeth sylfaenol am bolisiau allweddol a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r maes hwn.
6. Mae gwybodaeth gefndir ar gael o amrywiaeth o ffynonellau, ac mae rhai ohonynt wedi'u nodi isod.

Gwybodaeth bellach

7. Nid yw'r adroddiad hwn yn disgrifio'r holl dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae rhestr o'r dystiolaeth a gafwyd wedi'i hatodi i'r adroddiad hwn.
8. Gan nad yw'r adroddiad hwn yn ceisio egluro polisi morol yng Nghymru i'r cyhoedd yn gyffredinol, gallai'r ffynonellau isod fod yn ddefnyddiol i'r rheini sy'n chwilio am wybodaeth gefndir.

9. Mae **Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru** wedi darparu nifer o bapurau defnyddiol sy'n egluro agweddau ar bolisi morol. Mae'r rhain ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

10. Mae gwybodaeth ar gael am **bolisiau Llywodraeth Cymru** ar ei gwefan.

11. Mae nifer o **gyrff anllywodraethol** yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol o'u safbwynt eu hunain. Er nad yw'r adroddiad hwn yn rhestru dolenni uniongyrchol ar gyfer y gyrff hyn, mae'n bosibl y bydd mwy o wybodaeth ar wefannau'r gyrff sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

12. Ymhen tua chwe wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymateb a fydd yn nodi a yw'n derbyn yr argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y Pwyllgor neu beidio.

13. Wedyn bydd yr adroddiad hwn, ac ymateb Llywodraeth Cymru, yn cael eu trafod mewn cyfarfod llawn.

14. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r cynnydd ar weithredu'r argymhellion y mae wedi'u gwneud ac yn eu trafod wedyn â Llywodraeth Cymru a/neu eraill os yw'n credu bod angen gwneud hynny

2. Cyflwyniad

15. Mae rheoli'r amgylchedd morol yn mynd yn fwyfwy pwysig gan fod y pwysau ar wasanaethau'n cynyddu. Mae potensial enfawr ym moroedd Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy glân, ac maent hefyd yn ffynhonnell gynaliadwy ar gyfer bwyd, ond rhaid rheoli a chydbwysu'r cyfleoedd hyn yn ofalus os yw dyheadau Llywodraeth Cymru am '*ecosystemau iach sy'n weithredol ac yn amrywiol o safbwynt biolegol*' i'w gwireddu.¹

16. Mae oddeutu 60 y cant o boblogaeth Cymru'n byw yn yr ardal arfordirol, mae'r amgylchedd morol ac arfordirol yn cyfrannu £2.5 biliwn o ran CMC i economi Cymru ac yn cynnal 92,600 o swyddi.² Mae'r dyfroedd morol o gwmpas Cymru'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth hefyd ac mae iddynt werth diwylliannol pwysig i nifer o gymunedau yng Nghymru.

17. Arwynebedd dyfroedd mewndirol Cymru yw 16,000 km² sef bron dwywaith maint Cymru ac, o hynny, mae 5,600 km² wedi'i ddynodi'n 125 o ardaloedd morol gwarchoddedig. Mae hyn yn cyfateb i 35 y cant o ddyfroedd Cymru.³ Drwy gyflwyno *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir* ('Deddf y Môr') yn 2009 rhoddwyd hwb o'r newydd i ddatblygu polisi morol cydlynol i Gymru.⁴ Roedd yn rhoi nifer o ddyletswyddau cyfreithiol i Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf mewn cysylltiad â'i dyfroedd morol. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Datganiad Polisi Morol y DU⁵ ac wedi dechrau gweithio ar gynllunio gofodol morol ac ar greu parthau cadwraeth morol o fewn 12 milltir forol i'w glannau.

18. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithredu a gorfodi Cyfarwyddbau Ewropeaidd o fewn dyfroedd Cymru ac yn benodol am ddiogelu a rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, am ansawdd ei dyfroedd morol ac am weithredu polisi a deddfwriaeth ar bysgodfeydd.

19. Ym mis Gorffennaf 2012, dechreuodd y Pwyllgor ar ei ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru, a chytunodd i wneud y canlynol:

¹ [Llywodraeth Cymru, Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, 2009](#)

² [Llywodraeth Cymru, Gwarchod Moroedd Cymru - Strategaeth ddrafft ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig morol yng Nghymru, 2009](#)

³ Ibid

⁴ [Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, 2009 c.23](#)

⁵ [Llywodraeth EM, UK Marine Policy Statement, Mawrth 2011](#)

- asesu'r cynnydd gan Lywodraeth Cymru ar weithredu Deddf y Môr 2009 gan roi sylw penodol i'r pwerau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chadwraeth forol a chynllunio gofodol morol;
- asesu'r cynnydd gan Lywodraeth Cymru ar gyflawni ei rhwymedigaethau Ewropeaidd yn y maes hwn gan roi sylw penodol i Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, y Gyfarwyddeb Adar, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Ansawdd Dŵr Ymdrochi a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

20. Rhoesom ystyriaeth i'r canlynol:

- pa gynnydd a gafwyd ar ddatblygu cynlluniau gofodol morol i Gymru?
- beth yw statws presennol ardaloedd morol gwarchoddedig yng Nghymru a pha rôl a fydd gan y parthau cadwraeth morol yn y rhwydwaith hwn o ardaloedd gwarchoddedig?
- datblygiad swyddogaethau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt trwyddedu morol a physgodfeydd ac a yw hyn wedi bod yn effeithiol?
- pa gynnydd a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar weithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd allweddol?
- a oes digon o gydweithredu a chydgyssylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau cyfagos ar reoli ei moroedd?
- a oes digon o staff ac adnoddau ariannol gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion o ran polisi a deddfwriaeth forol?
- a yw rhanddeiliaid wedi'u cynnwys yn ddigonol yn y gwaith o lunio polisiau newydd a datblygu deddfwriaeth?

21. Yn ystod y pum mis dilynol, cawsom 19 o gyflwyniadau ysgrifenedig a chymerasom dystiolaeth lafar gan 15 o sefydliadau, y Comisiwn Ewropeaidd, arbenigwyr academiaidd a Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy.⁶

⁶ Gellir gweld y dystiolaeth a gafwyd yn:
<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=4412>

3. Blaenoriaeth ac adnoddau

Nid yw'r amgylchedd morol yng Nghymru wedi cael digon o flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen ystyried newid mewn blaenoriaeth ac adnoddau o'r daearol i'r morol os yw uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru i gael eu gwireddu.

Barn rhanddeiliaid

Blaenoriaeth

22. Mynegwyd pryder gan y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid a gyfrannodd i'r ymchwiliad am lefel y flaenoriaeth a roddir i bolisi morol yng Nghymru.

23. Mae'r diffyg cyfeiriad at bolisi morol mewn ymgynghoriadau sy'n ymwneud â strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru, fel *Cynnal Cymru Fyw* a chreu Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi amlygu'r diffyg blaenoriaeth hwn.

24. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru a'i aelodau cyfansoddol, Fforwm Arfordir Sir Benfro, Partneriaeth Môr Hafren a Chymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain i gyd wedi mynegi pryderon o'r fath mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor.

25. Dywedodd Mr Mark Russell, Cyfarwyddwr Agregau Morol Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain fod hyn yn dangos meddylfryd lle'r oedd polisi morol yn ail neu'n drydedd ystyriaeth wrth ddatblygu polisi amgylcheddol. Ymhelaethodd ar ei farn bod y diffyg blaenoriaeth hwn yn ganlyniad i orsymleiddio'r amgylchedd morol gan lunwyr polisi.⁷

26. Ategwyd y farn hon gan Fforwm Arfordir Sir Benfro, a gododd fater y diffyg cydnabyddiaeth i'r amgylchedd morol gyda ni. Eglurwyd hyn gan Ms Tonia Forsyth, a oedd yn cynrychioli Fforwm Arfordir Sir Benfro:

“The difficulty is that the marine environment is often viewed as a sector, like a terrestrial sector such as forestry, and it is a

⁷ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2012 c.108](#)

lot more complex than that. It is a poorly understood environment.”⁸

27. Ategwyd y sylwadau hyn gan yr Athro Linda Warren yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ac mae Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd yn awgrymu bod y diffyg blaenoriaeth yn ganlyniad i gymhlethdod yr amgylchedd morol:

“One of the biggest challenges with the marine environment is its complexity, and a number of uncertainties remain. We know a lot less about our marine environment than our terrestrial environment. Even undertaking data collection is time-consuming, involves a lot more logistical challenges, and is more expensive.”⁹

Adnoddau

28. Mae consensws yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom fod angen gwella gallu Llywodraeth Cymru ym mhob agwedd ar bolisi morol.

29. Mae parch mawr tuag at staff morol Llywodraeth Cymru gan randdeiliaid, ond nid yw'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu bod digon o adnoddau gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei dyletswyddau statudol.

30. Gwnaethpwyd cymariaethau â Lloegr a'r Alban er mwyn tynnu sylw at lefel isel yr adnoddau yng Nghymru. Yng nghyswllt cynllunio gofodol morol, dywedodd Fforwm Arfordir Sir Benfro a Chymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain wrthym fod 20 o bobl wedi'u neilltuo i'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gofodol morol yn Nwyrain Lloegr. O'i gymharu â hyn, un person sy'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau gofodol morol yng Nghymru ac mae wedi'i ailgyfeirio'n ddiweddar i weithio ar yr ymgynghoriad ar Barthau Cadwraeth Morol.

31. Wedi dweud hyn, roedd rhanddeiliaid yn derbyn bod adnoddau'r Llywodraeth yn brin oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol ond roeddent yn dadlau y byddai modd defnyddio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yn fwy effeithlon pe byddai Llywodraeth Cymru yn pennu ei blaenoriaethau'n gliriach. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar ran Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain, dywedodd Mr Mark Russell:

⁸ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2012 c.7](#)

⁹ [Cofnod y Trafodion 18 Hydref 2012 c.257](#)

“It depends what you want to achieve, and, certainly in these straightened times, there is a difference between what you aspire to do and what you need to do. I suspect it requires decisions to be taken as to what the genuine priorities are and then to reflect on the level of resources that are required to deliver them. Part of the problem at the moment with the resourcing and delivery environment in the Welsh Government for marine issues is that there are a multitude of policy and delivery issues that have to be delivered. They are all trying to be delivered simultaneously and that means that all of them get so far, but you do not end up doing any of them well. I suspect that there would be more to be gained by dealing with fewer issues, and by tackling the priority issues and making sure that they are done properly and well, rather than spreading yourself so thinly that you are making a token effort to make progress across all fronts, but are not actually making any meaningful progress.”¹⁰

32. Ategwyd y farn hon gan Dr Mary Lewis a oedd yn cynrychioli Cyngor Cefn Gwlad Cymru:

“Obviously, there is a resource issue, but, more broadly and perhaps as important is the prioritisation of existing resource and looking carefully at the marine governance legislative and policy framework that we have ready to use and thinking carefully about which are the most important aspects to be focusing on and delivering. If considerable additional resources are not forthcoming or are not available, then what do we do first? You have heard it said a lot—and we share the view—that, if we can get the right marine planning framework in place, then that automatically prioritises some of the other areas of marine management, conservation, delivery et cetera. On a practical front, we have been considering how we can make more effective and efficient use of existing resources rather than just wanting more resources.”

¹⁰ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2012 c.85](#)

Safbwynt Llywodraeth Cymru

33. Dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ('y Gweinidog') wrthym fod Llywodraeth Cymru yn symud fwyfwy tuag at fabwysiadu pwyslais cryfach ar ein moroedd ac adnoddau dŵr a bod llawer o waith i'w wneud eto.¹¹

34. Er bod gweledigaeth lefel uchel Llywodraeth Cymru wedi'i disgrifio yn 2009 yn *Our Seas – a Shared Resource – UK High Level Marine Objectives*,¹² nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi cyflwyno ei blaenoriaethau a'i chynlluniau manwl ar gyfer yr amgylchedd morol yng Nghymru.

35. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod swm sylweddol o waith i'w wneud.¹³

36. Mae'r Gweinidog yn datgan yn ei bapur i'r Pwyllgor:

“Rydyn ni wrthi'n adolygu'r trefniadau i gefnogi'r rhaglen forol, gan gynnwys adnoddau. Un o themâu allweddol yr adolygiad yw cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig cymunedau arfordirol lleol a rôl fforymau arfordirol, gan adlewyrchu'r dull o reoli ar sail yr ecosystem.”¹⁴

37. Yn ystod ein craffu ar gyllideb y Gweinidog, dywedodd Mr Mathew Quinn, Cyfarwyddwr, yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wrthym fod £120,000 ar gael yng Nghyllideb 2013-14 ar gyfer polisi morol.¹⁵ Yn ei ymateb i'n llythyr ar y gyllideb dywedodd y Gweinidog y bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwaith sy'n mynd rhagddo ar barthau cadwraeth morol, gwaith paratoi ar gynllunio morol a dirprwyo swyddogaethau trwyddedu morol o Lywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru.¹⁶

¹¹ [Cofnod y Trafodion 28 Tachwedd 2012 c.91](#)

¹² [Llywodraeth EM, UK Marine Policy Statement, Mawrth 2011](#)

¹³ [Cofnod y Trafodion 28 Tachwedd 2012 c.110](#)

¹⁴ [Llywodraeth Cymru, Papur ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 28 Tachwedd 2012 : Ymchwiliad i'r polisi morol, 28 Tachwedd 2012](#)

¹⁵ [Cofnod y Trafodion 18 Tachwedd 2012 c.124](#)

¹⁶ Llythyr oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 14 Tachwedd 2012

Barn y Pwyllgor

Blaenoriaeth

38. Rydym yn derbyn bod heriau'n codi wrth ddatblygu polisi morol oherwydd natur gymhleth yr amgylchedd morol. Er hynny, mae'n glir, o ystyried y dystiolaeth a gafwyd, nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi digon o flaenoriaeth i'r amgylchedd morol. Mae'r diffyg cyfeiriad at yr amgylchedd morol yn *Cynnal Cymru Fyw*¹⁷ ac mewn ymgynghoriadau ynghylch sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwydd o hyn. Hefyd, mae'r cyfeiriadau at yr amgylchedd morol yn brin yn strategaeth amgylcheddol gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ac nid oes cyfeiriad at yr amgylchedd morol yn y map polisi sydd gyda'r strategaeth hon.

39. Drwy basio Deddf y Môr cafwyd cyfle i ailflaenoriaethu polisi morol. Mae tair blynedd ers hynny ac mae'r cynnydd ar weithredu Deddf y Môr wedi bod yn araf. Hefyd, mae elfennau allweddol yn y Ddeddf hon sydd heb eu cychwyn eto gan Weinidogion Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ddatganoli cyfrifoldeb iddi yn y maes hwn. Testun siom yw darganfod, ers datganoli'r cyfrifoldeb hwn, fod Llywodraeth Cymru wedi methu â chymryd camau digonol i gyflawni ei hymrwymiaadau. Fel yr ydym yn nodi'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mewn rhai achosion mae hyn wedi gwneud drwg i'w henw yng ngolwg rhanddeiliaid.

40. Rydym yn pryderu ynghylch lefel y flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r amgylchedd morol. Rydym hefyd yn pryderu am nad oes strategaeth sy'n nodi blaenoriaethau a chynlluniau cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd morol.

41. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni dyletswyddau statudol ymestynnol oherwydd, os na wneir hynny, gallai Llywodraeth Cymru fod yn agored i her gyfreithiol ac achosion tor-dyletswydd.

42. Yn ei dystiolaeth, roedd y Gweinidog yn cydnabod bod swm sylweddol o waith i'w wneud o ran ein hardaloedd morol, drwy lunio polisi a strategaeth. Ymrwymodd i gyflwyno datganiad o egwyddorion tua gwanwyn 2013.¹⁸ Er ein bod yn croesawu'r ffaith ei fod yn cydnabod bod gwaith i'w gyflawni, credwn fod angen iddo wneud mwy na llunio datganiad o egwyddorion.

¹⁷ [Llywodraeth Cymru, Cynnal Cymru Fyw, Ionawr 2012](#)

¹⁸ [Cofnod y Trafodion 28 Tachwedd 2012 c.127](#)

43. Credwn y byddai cynllun gweithredu clir a chydlynol gydag amserlen fanwl ar gyfer cwblhau polisiâu allweddol yn dangos ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'r amgylchedd morol ac yn caniatáu monitro gan bobl Cymru a'r Cynulliad ar ei chynnydd wrth gyflawni ei chyfrifoldebau.

44. Mae angen gwneud hyn ar fyrder, gan fod galwadau cynyddol ar ein hamgylchedd morol. Rydym ar drothwy cyfnod pan fydd mwy o ddefnydd o'r cefnfor ar gyfer ynni adnewyddadwy, bwyd cynaliadwy a physgodfeydd.

Adnoddau

45. Mae gennym bryderon ynghylch lefel yr adnoddau sydd wedi'u dyrannu at gyflawni polisi morol yng Nghymru. Gallai hyn fod yn ganlyniad yn rhannol i'r flaenoriaeth annigonol i'r amgylchedd morol.

46. Roedd rhanddeiliaid yn cyd-weld ynghylch yr enw da sydd gan staff Llywodraeth Cymru, ond roeddent hefyd yn cyd-weld nad oes digon o adnoddau gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei dyletswyddau presennol, heb sôn am alwadau yn y dyfodol. Ni chawsom syniad clir o beth fyddai lefel briodol yr adnoddau, ond mae'n amlwg i ni nad yw'r lefelau presennol yn ddigonol.

47. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru edrych o ddifrif ar yr adnoddau. Rydym yn gobeithio y bydd yn cytuno i weithredu ar yr argymhelliad yr ydym yn ei wneud isod ynghylch datblygu cynllun gweithredu. Os bydd yn gwneud hyn, yna credwn y dylid ystyried adnoddau'n ofalus yn ystod y gwaith hwnnw. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i nodi barn rhanddeiliaid y byddai camau buan i ddatblygu rhestr glir o flaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd morol yn caniatáu defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau presennol. Yn ein barn ni, gallai hyn olygu bod angen newid o ran blaenoriaeth ac adnoddau o bolisi daearol i bolisi morol.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth uwch i bolisi morol yng Nghymru.

Argymhelliad 2: Erbyn Ebrill 2013, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n dangos ei blaenoriaethau ar gyfer cyflawni ei pholisiâu morol. Dylid cynnwys cynllun gweithredu yn y strategaeth hon ar gyfer cyflawni

pob amcan polisi. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynnwys y manylion canlynol:

- Canlyniadau disgwyliedig;
- Camau gweithredu penodol i gyflawni'r canlyniadau disgwyliedig;
- Amserlen cyflawni, gan gynnwys cerrig milltir allweddol;
- Cost cyflawni (gan gynnwys ystyriaethau o ran adnoddau);
- Manylion y ffynonellau ariannol.

48. Mae nifer o'r argymhellion yr ydym yn eu gwneud isod yn gysylltiedig ag Argymhelliad 2.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i adnoddau yn ystod y broses o ddatblygu cynllun gweithredu. Dylai Llywodraeth Cymru gael cymorth gan arbenigwyr allanol os yw'n briodol, ond dylai hefyd ystyried a oes angen darparu gwell adnoddau i gyflawni ei rhwymedigaethau statudol ymestynnol.

4. Cynllunio gofodol morol

Mae'r cynnydd ar lunio cynlluniau gofodol morol wedi bod yn araf ac mae diffyg cynlluniau'n creu ansicrwydd ymysg rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni.

Barn rhanddeiliaid

Cynnydd

49. Mae'r holl rhanddeiliaid o blaid yr egwyddor o gynllunio gofodol morol sydd wedi'i hymgorffori yn Neddf y Môr a'r ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau o'r fath ond maent yn mynegi siom ynghylch y diffyg cynnydd hyd yn hyn. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn dweud ar ail dudalen ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“WEL drew optimism from initial progress in developing Welsh Government's 'Approach to Marine Planning in Wales' through the consultation launched in February 2011 and stakeholder engagement via the Wales Coastal and Maritime Partnerships' Marine Planning sub-group. However, despite a recommitment to marine planning by the current Minister for Environment and Sustainability, progress since the election in May 2011 has been limited. A summary of responses to the consultation has not been issued, while stakeholder engagement has ceased, resulting in diminished public visibility and a perception of reduced prioritisation of marine spatial planning. Such a strategy shift risks the disenfranchisement and disillusionment of previously enthused and engaged stakeholders.”¹⁹

50. Mae WWF hefyd yn dadlau bod diffyg cynnydd ar ddatblygu cynlluniau morol yn peri pryder o ystyried nifer y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ynghylch y flaenoriaeth a roddir i wahanol weithgareddau ym moroedd Cymru:

“Furthermore, live debates concerning sectoral spatial allocations for marine renewables, fisheries and marine conservation are currently occurring in the absence of an integrated government vision for Welsh seas and a formal

¹⁹ [Cyswllt Amgylchedd Cymru, Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol yng Nghymru, Medi 2012](#)

government-led framework for facilitating a collective view on the spatial allocation of marine space. WWF believes that every effort should be made to prioritise the development of marine plans in Wales and, as part of this, we call upon on the Environment and Sustainable Development Minister to issue a statement of intent for this policy area to give clarity to stakeholders.”²⁰

51. Ategwyd y pryder hwn gan y Royal Yachting Association (RYA) yn ei thystiolaeth ysgrifenedig a llafar.

52. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid, yn eu dystiolaeth ysgrifenedig a llafar, yn gefnogol i'r gwaith sy'n cael ei gwblhau gan dîm polisi morol Llywodraeth Cymru ond mynegwyd pryderon ganddynt am y capasiti sydd gan staff Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynlluniau gofodol morol i Gymru. Yn ei dystiolaeth lafar ar ran WWF, dywedodd Mr Crook nad oedd ond un swyddog cynllunio morol dros Gymru tra oedd 20 yn y Sefydliad Rheoli Morol yn Lloegr a 10 yn Marine Scotland.²¹

53. Pwysleisiwyd yr angen am bennu blaenoriaethau ar gyfer cynllunio morol mewn dystiolaeth lafar gan Mr Parker ar ran Partneriaeth Môr Hafren, Mr Russell ar ran Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain a Mr Tudor ar ran Ystad y Goron.

54. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain y gallai Llywodraeth Cymru gael mantais o ohirio gwaith, o ganlyniad i'r diffyg adnoddau ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru, er mwyn dysgu o'r prosesau cynllunio morol sy'n digwydd mewn mannau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, yn ei thystiolaeth lafar dywedodd y byddai angen i Lywodraeth Cymru sicrhau wrth wneud hynny ei bod wedi neilltuo adnoddau digonol i gydweithio â'r Sefydliad Rheoli Morol pan fydd yn dechrau cynllunio ar gyfer ardaloedd trawsffiniol.²²

Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol

55. Yn y dystiolaeth lafar a roddodd ar 4 Hydref, dadleuodd yr Athro Linda Warren fod y rhyngwyneb rhwng parthau arfordirol a'r amgylchedd morol yn hollbwysig.²³ Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a

²⁰ [WWF Cymru, Cyflwyniad i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Medi 2012](#)

²¹ [Cofnod y Trafodion 18 Hydref 2012 c.312](#)

²² [Ibid c.98](#)

²³ [Cofnod y Trafodion 4 Hydref 2012 c.13](#)

llafar gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru a Cyswllt Amgylchedd Cymru tynnwyd sylw at y cysylltiadau pwysig rhwng Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol a chynllunio gofodol morol. Dywedodd nifer o randdeiliaid eu bod yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ond bod angen ei hadolygu yng nghyd-destun y trafodaethau presennol ar Gynllunio Gofodol Morol. Mynegwyd pryder ganddynt fod yr adolygiad a oedd i'w gynnal yn 2010 heb gael ei gyflawni eto. Ar ail dudalen ei dystiolaeth mae Fforwm Arfordir Sir Benfro yn datgan:

“The second point of concern relates to the implementation and review of the ICZM Strategy for Wales. Published by the then Welsh Assembly Government in March 2007 it has yet to be reviewed. The last progress report related to 2008/9. The strategy was due for review in 2010 – as yet no review has taken place. The Welsh Government rightly stresses that the marine plan process should help achieve integration between land and sea. However, the ICZM strategy, which was prepared before the Marine Act was passed, contains many policies and actions which should also help to achieve integration. The Forum believes that an urgent review of the strategy should be undertaken, taking into account the arrival of marine planning, so that it can dovetail with the marine plan process.”²⁴

56. Mae WWF yn credu bod angen cysylltiad clir rhwng cynllunio morol a chynllunio daearol:

“WWF believes that the integration with terrestrial planning policy, development control and other strategies, such as land use plans, non-statutory ICZM plans, River Basin Management Plans and Shoreline Management Plans, represents a considerable challenge to marine planning. The coastal zone is incredibly important for conservation of natural and cultural heritage, along with representing hugely significant environmental, economic and social assets. WWF is a strong advocate of Integrated Coastal Zone Management (ICZM) as a process for bringing together all those involved in the development, management and the use of the coast to help

²⁴ [Fforwm Arfordir Sir Benfro, Ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Bolisi Morol yng Nghymru, Medi 2012](#)

ensure future management takes place in an integrated and informed way.”²⁵

57. Mae WWF yn dadlau y dylai nifer o amcanion allweddol y strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol fod yn sail i gynlluniau morol Cymru. Er hynny, mae WWF yn mynegi pryder ynghylch cynnydd araf ar gyflawni'r camau gweithredu yn y strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ar gyfer Cymru. Mae WWF hefyd yn nodi bod angen dysgu gwersi o'r broses Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ar gyfer cynllunio gofodol morol ac na ddylai'r strategaeth gael ei gadael 'ar y silff'.²⁶

58. Mae adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol ar Gynllunio yn cyfeirio at gynllunio gofodol yng Nghymru ac yn galw am fwy o gysylltiadau rhwng Cynllun Gofodol Cymru, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Cynllun Rheoli Adnoddau Naturiol sy'n cael ei ddatblygu dan *Cynnal Cymru Fyw*. Mae'n datgan y bydd cynllunio defnydd tir yn ffordd allweddol o gyflawni'r cynlluniau hyn a chynllunio gofodol yng Nghymru ond nid yw'n cyfeirio at gynllunio morol na chynllunio arfordirol.²⁷

Sylfaen Dystiolaeth

59. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at y pwysigrwydd o gael sylfaen dystiolaeth ddigonol ar gyfer cynllunio morol. Dywedodd Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain ac Ystad y Goron fod angen gwell cydgysylltu rhwng y rhaglenni tystiolaeth ac ymchwil presennol. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Mr Russell ar ran Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain:

“There is a wide range of public and private interests involved in data acquisition. There are two challenges, I guess, one of which—and it is probably the most important one—is to make the best use of what we already have because there is already a significant investment in marine data, and I am not convinced that we make the best use of everything that we have, both in the public and the private sector. The second element is that, where we are commissioning work, we should think about joining up our thinking so that we are not reinventing the

²⁵ [WWF Cymru, Cyflwyniad i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Medi 2012](#)

²⁶ *Ibid*

²⁷ [Grŵp Cyngori Annibynnol Llywodraeth Cymru ar Gynllunio, Towards a Welsh Planning Act: Ensuring the Planning System Delivers, Gorffennaf 2012](#)

wheel and surveying the same areas two or three times. If we can accomplish the requirements of a number of different interests by undertaking one piece of work, then that is obviously far better than commissioning three or four pieces of work.”²⁸

60. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn dweud ei fod yn dal swm mawr o ddata ond bod ansicrwydd ynghylch datblygu cynlluniau morol wedi’i rwystro rhag paratoi’r data hyn yn briodol. Ar y bedwaredd dudalen mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn nodi:

“Mae’r Cyngor Cefn Gwlad yn cadw llawer iawn o ddata a thystiolaeth y disgwyliwn y byddant o fudd er mwyn datblygu cynlluniau morol. Yn achos llawer o’r rhain bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn trosi neu ‘ddechongli’r’ dystiolaeth sydd ar gael i ffurf a fydd yn ddefnyddiol i’r broses gynllunio, a gall hyn gymryd amser. Mae gennym hefyd dystiolaeth barhaus anghenion. Mae’r Cyngor Cefn Gwlad wedi bod yn ymwneud â choladu a chyflwyno’n data a’n tystiolaeth i gefnogi’r broses gynllunio morol yng Nghymru. Un canlyniad yw creu Cyfarwyddiadur Tystiolaeth Forol y Cyngor Cefn Gwlad. Fodd bynnag, oherwydd diffyg eglurder ynglŷn â chynnydd gwaith cynllunio morol yng Nghymru, mae’n anodd cynllunio’n briodol er mwyn cyfrannu rhagor tuag at y broses gynllunio.”²⁹

Cytleoli

61. Awgrymodd Dr Peter Jones yn ei dystiolaeth lafar, ar 4 Hydref 2012, y gallai cynlluniau gofodol morol geisio cytleoli parthau cadwraeth morol a phrosiectau ynni adnewyddadwy os oedd yn briodol. Dywedodd hefyd fod angen posibl am ddynodi ardaloedd penodol ar gyfer pysgodfeydd mewn cynlluniau gofodol i sicrhau na fydd y diwydiant yn teimlo ei fod wedi’i wthio i’r ymylon oherwydd y sylw i faterion ynni a chadwraeth.³⁰

62. Clywsom y farn ganlynol gan Sarah Horsfall, ar ran Seafish, o safbwynt y diwydiant pysgota:

²⁸ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd c.79](#)

²⁹ [Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Medi 2012](#)

³⁰ [Cofnod y Trafodion 4 Hydref 2012 c.35](#)

“We have had that [dynodi parthau ar gyfer pysgota] suggested a number of times following Marine Acts in the UK. While we support the idea in principle much of the time, we are in a difficult position, because, hitherto, fishermen have had relatively unrestricted access to the sea. Of course, that is being eroded by different things over the period of time that we are coming to, and it is likely to be eroded even more. The problem is that, if we set aside specific fishery areas, we feel that we are going to be boxed in to those fishery areas and fishing will, essentially, be banned everywhere else. With fishing, we are talking about mobile species a lot of the time. If we say, ‘Okay; this is a great area for fishing now, and if we could get that designated as a fishing area, that is fantastic for now’, what happens with climate change or with just natural processes and species moving? It may be fantastic now, but in a year or two, or even in a shorter time frame than that, fish can move. Fishermen must be able to have an adaptive system. If we get areas where fishermen are literally going to be boxed in, we are in danger of having the industry not able to function at all. We would rather have unrestricted access, as we currently have. Obviously, there will be some areas where fishing has to be restricted, but we would rather have the rest of them where fishing is not restricted.”³¹

Cysylltiadau trawsffiniol

63. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn eu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar at bwysigrwydd cysylltiadau a chydgysylltu trawsffiniol yng nghyd-destun cynllunio morol. Ar ail dudalen ei dystiolaeth mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn nodi:

“Marine planning is progressing rapidly elsewhere in the UK, with the Marine Management Organisation having commenced planning in four of the eleven English marine plan areas and established a programme for full marine plan coverage of English waters by 2021, whilst a pre-consultation draft national marine plan is progressing in Scotland. It is WEL’s belief that further impediments to the process in Wales may deter the Marine Management Organisation from designating a cross-border region with Wales as their next plan area, and therefore

³¹ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd c.135](#)

could further delay the progression to robust and spatially prescriptive marine plans for the entire Welsh marine environment.”³²

64. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at yr angen am gwblhau concordatau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gynllunio morol. Ar drydedd dudalen ei thystiolaeth ysgrifenedig mae Partneriaeth Môr Hafren yn datgan:

“Furthermore, SEP would support the urgent development of formal concordats with the MMO and Defra at cross-border areas. We are concerned that these concordats have not yet been developed/communicated despite the promise within the consultation document last year.”³³

65. Yn ei dystiolaeth lafar ar ran Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain, dywedodd Mr Russell y bydd yn bwysig sicrhau cysondeb a chydgynllunio mewn ardaloedd trawsffiniol er mwyn datblygwyr.³⁴

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

66. Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryder nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ymateb neu wedi cyhoeddi crynodeb ymgynghori ar ôl yr ymgynghoriad yn 2011 ar ddull arfaethedig o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru a bod hyn wedi arwain at ddifreinio rhanddeiliaid.

67. Yn eu dystiolaeth ysgrifenedig a llafar dadleuodd Partneriaeth Môr Hafren a Fforwm Arfordir Sir Benfro y bydd yn bwysig ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynlluniau morol ac y bydden nhw yn ogystal â Phartneriaeth Arfordir a Môr Cymru yn gallu bod yn gyfrwng ar gyfer y gwaith hwn. Dywedodd y ddau sefydliad hyn a Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylid darparu cymorth, os defnyddir Partneriaethau i wneud hyn, i ddatblygu partneriaeth arfordirol yng Ngogledd a Gogledd-orllewin Cymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

68. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei *Rhaglen Lywodraethu* i ddatblygu cynllunio morol, yn unol â'i chyfrifoldebau

³² [Cyswllt Amgylchedd Cymru, Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol yng Nghymru, Medi 2012](#)

³³ [Partneriaeth Môr Hafren, Ymateb gan Bartneriaeth Môr Hafren, Medi 2012](#)

³⁴ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2012 c.97](#)

dan Ddatganiad Polisi Morol y DU a *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*.³⁵

69. Yn ei hymgyngoriad yn 2011, *Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru*, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai cynlluniau morol i Gymru'n cael eu datblygu erbyn 2013/14. Ailddatganwyd hyn gan y Gweinidog yn ei ymateb i'n hadroddiad ar bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru. Yn ei bapur ar gyfer y Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2012, mae'r Gweinidog yn datgan mai nod Llywodraeth Cymru yw datblygu cynlluniau morol cychwynnol ar gyfer dyfroedd mewndirol a môr mawr Cymru erbyn 2015. Hefyd, mae'r Gweinidog yn nodi yn ei bapur:

“To reflect its cross-cutting nature, Cabinet will be asked to approve the approach to marine planning, particularly on co-location and co-use generally, as it should have generic relevance.”³⁶

70. Mae crynodeb ym mhapur y Gweinidog o'r gwaith paratoi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau ar gyfer cynllunio gofodol morol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys comisiynu asesiad effaith ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru, astudiaeth o gymunedau arfordirol ac offeryn cynllunio System Gwybodaeth Ddaearyddol ar gyfer porth cynllunio morol i Gymru ar y we.

71. Yng nghyswllt materion trawsffiniol, dywedodd y Gweinidog:

“Byddwn hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a'i hasiantaethau, yn arbennig y Sefydliad Rheoli Morol, a llywodraethau eraill i sicrhau bod ein polisiâu morol perthnasol yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn ffordd integredig. Rydyn ni'n edrych ymlaen at ffurfioli'r trefniadau gwaith drwy goncordatiau neu femoranda cydddealltwriaeth yn ôl y gofyn.”³⁷

³⁵ [Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu, 2011](#)

³⁶ [Llywodraeth Cymru, Papur ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 28 Tachwedd 2012 : Ymchwiliad i'r polisi morol, 28 Tachwedd 2012](#)

³⁷ Ibid

72. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog y byddai ymateb i'r ymgynghoriad yn 2011 yn cael ei gyhoeddi cyn hir ac roedd yn cydnabod bod 'cwestiynau' ynghylch amseriad yr ymateb hwn.³⁸

Barn y Pwyllgor

Cynnydd

73. Mae datblygu cynllun gofodol morol i Gymru'n waith hanfodol a dylai fod yn garreg sylfaen i bolisiau morol Llywodraeth Cymru. Cafwyd rhywfaint o gynnydd ar y dechrau gan Lywodraeth Cymru yn sgîl pasio Deddf y Môr. Fodd bynnag, mae'r gwaith ar y cynllun gofodol morol wedi bod yn araf ac mae'n ymddangos bod oedi pellach oherwydd gwaith ar brosiect y parthau cadwraeth morol.

74. Yn ein barn ni, mae hyn yn ganlyniad i'r un rhesymau a drafodwyd yn adran flaenorol yr adroddiad hwn; diffyg strategaeth gyflawni; a diffyg adnoddau.

75. Rydym yn pryderu y byddai penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn niffyg cynllun gofodol morol yn gallu cyfyngu'r opsiynau a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu ei chynllun gofodol morol. Mae hyn yn creu'r perygl o beidio â dyrannu adnoddau gofodol cyfyngedig yn y ffordd fwyaf effeithiol.

76. Wrth weithredu ar 'Argymhelliad 2' uchod, credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddatblygu ei gwaith yn y maes hwn a darparu adnoddau ar ei gyfer. Bydd hyn yn ei galluogi i gyflawni ei hymrwymiaid eraill o ran polisi morol yn well.

Rheolaeth integredig ar barthau arfordirol

77. Tynnwyd ein sylw hefyd yn ystod yr ymchwiliad at bwysigrwydd rheoli integredig ar barthau arfordirol. Dylid adolygu'r strategaeth bresennol lle y bo angen yn ystod proses y cynllun gofodol morol.

Sylfaen dystiolaeth

78. Clywsom fod swm sylweddol o ddata ar gael o ffynonellau cyhoeddus a phreifat a allai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru wrth symud ymlaen â chynllunio morol. Hefyd clywsom fod ansicrwydd ynghylch datblygu cynlluniau morol wedi rhwystro'r gwaith o

³⁸ [Cofnod y Trafodion 28 Tachwedd 2012 c.160](#)

ddatblygu rhai data, a bod hyn yn creu'r perygl o ddyblygu gwaith ar gasglu data. Unwaith eto, mae hyn yn amlygu'r angen i ddangos yn glir sut y bydd cynlluniau morol yn cael eu cwblhau yng Nghymru. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio ffynonellau data sydd ar gael eisoes yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â diwydiant, canolfannau ymchwil prifysgolion a'r Trydydd Sector i gydgysylltu'r gwaith o gasglu data.

Cydleoli

79. Mae'r posibilrwydd o gydleoli gweithgareddau morol yn ddeniadol mewn egwyddor, ond rydym yn cydnabod nad yw'r cysyniad hwn yn un syml ac y bydd angen ei ystyried yn drylwyr wrth ddatblygu cynlluniau morol ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Dylai'r cynllun gofodol morol fod yn gyfrwng i ystyried hyn, ac mae'r ffaith nad yw cynlluniau wedi'u gwneud yn creu'r perygl o golli cyfleoedd wrth ystyried cynigion ar gyfer datblygu.

80. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o gydleoli gweithgareddau wrth ddatblygu cynlluniau gofodol morol. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwaith yn y maes hwn. Credwn y dylai ystyried a oes lle i rannu canlyniadau'r gwaith hwn ag eraill, gan gynnwys cyrff anllywodraethol amgylcheddol a phrifysgolion sy'n edrych ar y mater hwn.

Materion trawsffiniol

81. Yn Lloegr, mae'r Sefydliad Rheoli Morol yn gyfrifol am arwain ar ddatblygu cynlluniau morol yn nyfroedd y glannau a'r môr mawr. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar lefel ranbarthol ac mae 10 rhanbarth wedi'u pennu. Datblygir y cynlluniau ar sail dreigl ac ardaloedd cynllunio morol y Dwyrain a'r De sydd wedi'u pennu gyntaf. Dechreuwyd y cynllunio ffurfiol ar gyfer rhanbarth y Dwyrain, sef y rhanbarth a gafodd ei ddewis gyntaf, yn Ebrill 2011 ac mae disgwyl y bydd y cynllun yn barod i'w fabwysiadu gan yr Ysgrifennydd Gwladol erbyn diwedd 2013.

82. Mae'r ffaith bod cynllunio morol yn Lloegr ar y blaen i'r sefyllfa yng Nghymru yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru ddysgu rhai gwersi o'r broses yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn barod i symud ymlaen â dull cynllunio ar y cyd mewn ardaloedd trawsffiniol. Yn benodol, rydym yn rhannu'r pryder sydd gan Cyswllt Amgylchedd Cymru am y posibilrwydd na fydd

y Sefydliad Rheoli Morol yn dewis rhanbarth sy'n ffinio ar Gymru ar gyfer ei gynllun nesaf os na fydd Cymru'n barod i ymgymryd â'r gwaith. Gallai hyn arwain at oedi wrth gwblhau cynlluniau morol ar gyfer amgylchedd morol Cymru gyfan.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

83. Siom i ni oedd deall nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyfathrebu â rhanddeiliaid a gyfrannodd i'w hymgyngoriad ar *Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru* yn 2011. Mae'r gwaith da a wnaeth wrth gynnwys rhanddeiliaid yn y broses hon wedi'i ddadwneud i ryw raddau oherwydd hyn. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod hyn yn ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ailgyfeirio ei hunig aelod staff sydd â chyfrifoldebau o ran cynllunio morol i weithio ar brosiect y parthau cadwraeth morol. Mae hyn yn dangos unwaith eto fod angen cynllun gweithredu manwl ac yn awgrymu nad oes digon o adnoddau gan Lywodraeth Cymru i gyflawni pob un o'i dyletswyddau ar hyn o bryd.

84. Wrth symud ymlaen ar bob agwedd ar waith polisi morol, dylai Llywodraeth Cymru geisio defnyddio strwythurau presennol y rhanddeiliaid, fel partneriaethau'r arfordir, a gallai ystyried rhoi cefnogaeth i ddatblygu partneriaethau arfordir yng Ngogledd a Gorllewin Cymru. Wrth ddod i'r farn hon, rydym yn cydnabod bod cryfder y sefydliadau hyn yn ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi'u datblygu o'r gwaelod i fyny dan arweiniad rhanddeiliaid ac nad yw ymgais i'w creu o'r brig i lawr yn debygol o fod yn effeithiol.

Argymhelliad 4: Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol cyn gynted â phosibl, a dim hwyrach nag Ebrill 2014 ac yn sicrhau ei bod yn cael ei hystyried wrth ddatblygu cynlluniau gofodol morol.

Argymhelliad 5: Bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid i bennu'r ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru. Os bydd cyfle, dylai weithio mewn partneriaeth â diwydiant, canolfannau ymchwil prifysgolion a'r Trydydd Sector i gydgyssylltu gwaith i gasglu data. Rydym yn disgwyl y bydd y ffordd o gyflawni hyn yn cael ei disgrifio mewn ymateb i 'Argymhelliad 2' uchod.

Argymhelliad 6: Bod Llywodraeth Cymru, wrth baratoi cynlluniau morol ar gyfer 2015, yn sicrhau ei bod yn barod i symud ymlaen â dull cynllunio ar y cyd mewn ardaloedd trawsffiniol a'i bod yn cydweithio â'r Sefydliad Rheoli Morol fel na chaiff y sefydliad hwnnw ei atal rhag dewis rhanbarth sy'n ffinio ar Gymru ar gyfer ei gynllun nesaf. Er mwyn sicrhau ei bod mewn lle i wneud hyn dylai Llywodraeth Cymru geisio gwneud concordat neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r Sefydliad Rheoli Morol cyn gynted â phosibl a dim hwyrach na Rhagfyr 2014.

5. Ardaloedd morol gwarchoddedig

Mae cyfran helaeth o foroedd Cymru wedi'i dynodi ar gyfer ei gwarchod, ond mae statws amgylcheddol yr ardaloedd morol gwarchoddedig presennol yn aneglur a gellir rheoli'r safleoedd presennol yn well.

Barn rhanddeiliaid

Yr ardaloedd morol gwarchoddedig presennol

85. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar mae RSPB Cymru, WWF, Ymddiriedolaethau Natur Cymru a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn mynegi pryder am statws yr ardaloedd morol gwarchoddedig ('MPAs') presennol yng Nghymru. Ar yr ail dudalen o'i dystiolaeth mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn datgan:

“At over 36% of Welsh waters, the Wildlife Trusts recognise that Wales is leading the UK in the area of our territorial waters designated as MPAs. Whilst these sites present considerable potential to contribute to the protection of the marine environment, designation without appropriate management does not constitute protection. At the last reporting round on the condition of our existing MPAs in 2007, over 50% of features were found to not meet favourable conservation status. To address this, there needs to be a significant improvement in the management, enforcement and monitoring of these sites to improve the level of protection and ensure they are able to meet their objectives. These factors will need to be met with an increase in resourcing available to support these sites.”³⁹

86. Yn ei thystiolaeth lafar ar ran Ymddiriedolaethau Natur Cymru, dywedodd Ms Henshall y byddai rheolaeth well ar y safleoedd presennol yn gallu cyfrannu'n helaeth at wella'r amgylchedd morol yng Nghymru:

“However, in addition to marine conservation zones, perhaps of more concern for us is ensuring more effective management of the existing marine protected areas that we have. They cover over 36% of Welsh waters and if we can ensure those sites

³⁹ [Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol yng Nghymru, Medi 2012](#)

reach their objectives, that would be a significant contribution to the effective protection of our marine environment.”⁴⁰

87. Ategwyd y farn hon gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a dywedodd y dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf mewn cadwraeth forol yng Nghymru ar wella rheolaeth y safleoedd presennol:

“Yn fyr, dylid canolbwyntio'n bennaf yng Nghymru ar y casgliad presennol o safleoedd a gwella'r modd y maent yn cael eu rheoli.”⁴¹

88. Rhoddwyd croeso yn y dystiolaeth ysgrifenedig gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r sefydliadau sy'n aelodau ohono i ganlyniadau'r adolygiad diweddar o reolaeth yr ardaloedd morol gwarchoddedig presennol a gyflawnwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac roeddent yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu'n fuan ar ei argymhellion. Cafwyd y crynodeb canlynol o'r argymhellion allweddol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth cynhaliodd y Cyngor Cefn Gwlad adolygiad yn ddiweddar o'r modd y rheolir Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru. Daeth yr adroddiad gwerthuso i'r casgliad hwn: “It is clear that while there has been, and continues to be positive management of some Welsh MPAs (by CCW, other statutory bodies, voluntary groups and individuals), there remains inconsistency in approach, resource allocation and involvement of management authorities as well as a lack of strategic steer across the suite of Welsh MPAs. These issues are hampering delivery of effective management across all MPAs in Wales.

“Un o brif gasgliadau'r adolygiad hwn yw'r angen am arweiniad cryfach wrth reoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth er mwyn cael dull mwy ystyrion a phenodol o reoli'r rhwydwaith. Arweiniodd yr adolygiad at argymhellion lefel uchel gan y Cyngor Cefn Gwlad i Lywodraeth Cymru (gweler Atodiad 4) gan gynnwys argymhellion i sefydlu trefniadau llywodraethu

⁴⁰ [Cofnod y Trafodion 18 Hydref 2012 c.307](#)

⁴¹ [Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Medi 2012](#)

newydd er mwyn rheoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth, gan gynnwys Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol dan Warchodaeth Cymru, yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru o bosibl. Nid yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ffordd ymlaen ar adeg ysgrifennu hyn.”⁴²

89. Mynegwyd pryderon penodol gan RSPB Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ynghylch ymestyn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol ar gyfer adar. Ar y chweched dudalen yn ei dystiolaeth mae RSPB Cymru yn datgan:

“RSPB Cymru is particularly concerned with the continued failure to classify the ‘most suitable territories’ as Special Protected Areas (SPAs), or to implement any other special conservation measures, for avian species at sea. A UK approach to the identification of ‘maintenance’ extensions to breeding colony SPAs, to protect areas used for behaviours directly associated with the colony, such as resting, bathing and mating, has been agreed since 2008. Despite this there has been a significant lack of progress to designate these site extensions within Welsh waters. Completion of the SPA network requires adequate protection for seabirds not only near to nesting sites, as provided by the proposed extensions, but also offshore where the seabirds actively feed where more work is needed to identify the full suite of foraging areas.”⁴³

Parthau Cadwraeth Morol

90. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon mawr ynghylch y modd yr ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer parthau cadwraeth morol gwarchoddedig iawn, a’r canlyniadau posibl i hyn o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol .

91. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cyfeirio ar yr wythfed dudalen yn ei dystiolaeth ysgrifenedig at y Grŵp Rhanddeiliaid ac Ymgysylltu blaenorol a sefydlwyd yn rhan o broses y Parthau Cadwraeth Morol:

“Perhaps of more immediate concern is the breakdown of relationships with stakeholders as a result of the MCZ Project Wales, which has the potential to detrimentally impact

⁴² [Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Medi 2012](#)

⁴³ [RSPB Cymru, Ymateb gan RSPB Cymru, Medi 2012](#)

stakeholder engagement in future projects. WEL urges Welsh Government to make an announcement on the future of the project as soon as possible, so as to maintain momentum in existing projects and to address the level of disenfranchisement among stakeholders. Whilst WEL welcomed the creation of the Stakeholder and Citizen Engagement Group (SCEG), the level of activity to date has been limited despite strong interest by several members for the group to be more active. Furthermore, the stakeholder engagement plan has appeared ad hoc, leading to a greater level of confusion than expected. We feel more should have been done to address stakeholder concerns and clarity should have been given to Welsh Government proposals more promptly.”⁴⁴

92. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig a llafar, mae’r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn mynegi siom nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar yr argymhellion a gafodd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch y dull o redeg y broses ymgynghori ar Barthau Cadwraeth Morol. Ar seithfed dudalen ei thystiolaeth mae’r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn tynnu sylw at y canlynol:

“Although WG have indicated that they will be carrying out further stakeholder engagement, we would urge them to revisit the advice provided by CCW, and engage independent professional stakeholder facilitators to try to rebuild stakeholder confidence and willingness to participate in the policy processes.

“We would urge WG to review the CCW advice in their original recommendation on stakeholder engagement for the highly protected MCZ process, given the current lack of regard for WG as a result of this consultation. ‘Recommendation 5: An independent and efficient process will require a free standing staff unit (minimum three identified) in order to deliver a focused, well-managed, strongly evidence based, open, transparent and accessible process.’ . This was just for the MCZ process but could be applied to all stakeholder engagements.”⁴⁵

⁴⁴ [Cyswllt Amgylchedd Cymru, Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol yng Nghymru, Medi 2012](#)

⁴⁵ [Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol yng Nghymru, Medi 2012](#)

93. Mynegwyd pryder gan y Royal Yachting Association a'r Welsh Yachting Association ynghylch cyfathrebu o fewn Llywodraeth Cymru am effaith y Parthau Cadwraeth Morol arfaethedig. Roeddent yn tynnu sylw'n benodol at yr effeithiau ar weithgarwch gorfodi mewn pysgodfeydd ac ar strategaeth Cymru Egniol Llywodraeth Cymru. Ar drydedd dudalen ei thystiolaeth mae'r Royal Yachting Association yn datgan:

“The considerable restrictions imposed by highly protected MCZs are proposed to be established through formal management measures (Nature Conservation Orders, Fisheries Orders and Risk Management Areas), the enforcement of which has the potential to require significant resources. Given that ‘no one organisation has been identified as having overall responsibility for delivering effective management measures’ we question whether such resources will be available following designation of the highly protected MCZs.

“Furthermore, many of the measures in place to manage activity within existing marine protected areas in Welsh waters appear to be inadequately enforced due to a lack of resources. Given the current economic situation we would encourage the WG to consider whether it may be better to use the limited resources available to improve existing MPAs before designating new ones.”⁴⁶

94. Cynigiwyd enghraifft gan Mr Morgan ar ran y Welsh Yachting Association:

“To give you an example, there is the site proposed for Llŷn—between St Tudwal’s Island East and Llanbedrog. Pwllheli Sailing Club is one of four sea-based designated academies across the UK. The number of major international and UK national events that run on that site in the last four years has generated millions of pounds for the local economy. Not only is it a site of importance for international competition, but it is also where our Welsh national squads train through the winter. Hannah Mills, who won a silver medal at the Olympics a few months ago, started off her sailing not far from us, but as soon as she got into the Welsh national squad structure, she came

⁴⁶ [Royal Yachting Association, Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Bolisi Morol yng Nghymru, Medi 2012](#)

up to Pwllheli. The importance of that site and the potential restrictions that may or may not come about have a big impact for us as a sport in contributing to several Welsh Government strategies, such as 'Creating an Active Wales' and 'A Vision for Sport in Wales', the elite sport strategy. That is our real concern in relation to some of these sites."⁴⁷

Parthau cadwraeth y môr mawr

95. Mae nifer o randdeiliaid yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan ym mhrosiectau cadwraeth y môr mawr sy'n cael eu trefnu ar ran Llywodraeth y DU gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar ran RSPB Cymru, dywedodd Mr Cunningham:

"In terms of addressing this, it needs to be key that the Welsh Government is buying into that process, actively representing Wales on this and not leaving it to England to decide where these sites will go."⁴⁸

96. Tynnodd Mr Cunningham sylw at y ffaith mai swyddogion pysgodfeydd Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am weithgarwch gorfodi ar y safleoedd hyn, er mai Llywodraeth y DU fydd yn gyfrifol am eu dynodi.

97. Yn ei dystiolaeth lafar ar ran Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, eglurodd Mr Wilson ei bryderon:

"I think that there are very legitimate issues to be raised about the ability that we had as an industry to engage in the Natural England-led MCZ process. That seemed to develop into a very dogmatic process. I went to a couple of the Irish sea conservation zone meetings. There were a strict number of stakeholder representatives who were asked to provide evidence to that group. It was not very easy getting Welsh views heard on that group. Strangely, it is no coincidence that a lot of the offshore large MCZs proposed exist in the Welsh offshore zone. It depends upon which end of the extreme you come from. The MCZ process has failed for one reason or another."⁴⁹

⁴⁷ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2012 c.215](#)

⁴⁸ [Cofnod y Trafodion 18 Hydref 2012 c.276](#)

⁴⁹ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2012 c.163](#)

98. Yn ei dystiolaeth ar ran Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, dywedodd Mr Evans wrthym fod nifer o safleoedd wedi'u diystyru am eu bod eisoes wedi'u cynnwys mewn ardaloedd ar gyfer trydydd cylch y broses o ddatblygu ynni gwynt ar y môr:

“Equally, it is quite relevant that, with regard to the Irish sea conservation zone project, apart from not consulting with Welsh industry, one of the major faults or problems with that is that it did not take into consideration any other proposals for MPAs that were going to be taking place in Welsh territorial waters. Clearly, there were other areas in round three that were taken out of the equation, essentially because the planning had been approved or had been applied for at that stage. That element or area was taken out of the overall picture, which meant that any proposed areas that were supposed to be within a given percentage of whatever habitats they were looking to protect were dispersed further. There were a number of criticisms, but, in a Welsh context, the location of the sites that have been indicated up to this time would support the fact that we were not in the room.”⁵⁰

99. Defra sy'n gyfrifol am ddynodi Parthau Cadwraeth Morol yn nyfroedd môr mawr Cymru (rhwng 12 milltir forol o'r glannau a'r llinell ganol ag Iwerddon). Hefyd bydd nifer o safleoedd arfaethedig yn nyfroedd glannau Lloegr yn gyfagos i ddyfroedd Cymru ac felly'n effeithio ar Gymru. Ar 13 Rhagfyr 2012 cyhoeddodd Defra ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol yn 2013. O'r rheini a gynigiwyd, mae dau o fewn Parth Cadwraeth Môr Iwerddon a gaiff effaith neilltuol ar Gymru. Y rhain yw safle arfaethedig North Celtic Deep sydd o fewn dyfroedd môr mawr Cymru a safle South Rigg sydd o fewn dyfroedd mewndirol Lloegr. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 31 Mawrth 2013. Bydd Defra yn cyflwyno cynigion ar gyfer mwy o Barthau Cadwraeth Morol yn nyfroedd môr mawr Cymru ac mewn dyfroedd cyfagos ar lannau Lloegr ym mlynnyddoedd y dyfodol.

⁵⁰ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2012 c.164](#)

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Yr ardaloedd morol gwarchoddedig presennol

100. Ar 21 Rhagfyr 2012, gosododd Llywodraeth Cymru *Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru*⁵¹ gerbron y Cynulliad. Dyfynnwyd yn helaeth o'r ddogfen hon isod gan ei bod yn egluro safbwynt diweddaraf Llywodraeth Cymru.

101. O ran nifer yr ardaloedd morol gwarchoddedig yng Nghymru a'u harwynebedd, mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

“Ar hyn o bryd mae 129 o MPAs yng Nghymru, sy'n cynnwys: 11 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig; 10 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig; 103 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; 4 safle Ramsar ac 1 Gwarchodfa Natur Forol. Nid oes unrhyw Barthau Cadwraeth Morol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r gyfres gyfredol o MPAs yng Nghymru yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddiogelu'r amgylchedd morol, cynrychioli ac ail-greu nodweddion.”

102. Mae'r rhwydwaith hwn o ardaloedd morol gwarchoddedig yn cynnwys arwynebedd o 5,600 km². Mae hyn yn golygu bod 35% o foroedd Cymru wedi'u dynodi.

103. Fodd bynnag, ym marn Llywodraeth Cymru mae'r rhwydwaith cyffredinol o ardaloedd morol gwarchoddedig yn anghyflawn:

“Ni fernir bod rhwydwaith ardaloedd morol gwarchoddedig y DU a chyfraniad Cymru ato yn gyflawn. Rydyn ni'n cydnabod nad yw'r safleoedd presennol yn cydnabod rhai rhywogaethau, nad yw safleoedd yn cael eu cysylltu'n dda ac nad yw nodweddion yn cael eu hail-greu'n ddigonol.”

104. Yn fwy penodol, yng nghyswllt statws y safleoedd presennol, mae Llywodraeth Cymru yn datgan:

“Rydyn ni'n gweithio tuag at asesiad cynhwysfawr a chyfoes o gyflwr ein holl MPAs a nodweddion MPA yng Nghymru, ac asesiad cynhwysfawr ynghylch pa mor effeithiol y mae'r safleoedd yn cael eu rheoli. Caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r

⁵¹ [Llywodraeth Cymru, Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru, 21 Rhagfyr 2012](#)

Adolygiad Rheoli MPAs mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac yna Cyfoeth Naturiol Cymru.”

105. Yn yr un adroddiad, mae Llywodraeth Cymru yn datgan, ar sail ei dealltwriaeth bresennol o’r dystiolaeth, fod rhwydwaith yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn nyfroedd Cymru’n gyflawn.

106. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar ymestyn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig wedi’i nodi fel a ganlyn:

“Er mwyn datblygu cyfraniad Cymru i’r rhwydwaith ymhellach o ran AGA, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru i gwblhau’r gwaith o ymestyn 3 nythfa adar môr yn AGA Ynys Gwales, AGA Sgogolm a Sgomer ac AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli.”

Cychwyn Rhan V o Ddeddf y Môr

107. Mae Gweinidogion Cymru ‘[...] yn parhau i adolygu cychwyn Rhan V yng Nghymru yng ngoleuni gwaith ychwanegol ar y Parthau Cadwraeth Morol sydd i’w gyflwyno ym mis Ebrill 2013.’⁵²

Parthau Cadwraeth Morol

108. Ar 5 Tachwedd 2012 cyhoeddodd y Gweinidog y camau nesaf ym mhroses y Parthau Cadwraeth Morol gan nodi y byddai Tîm Gorchwyl a Gorffen a Grŵp Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn cael eu sefydlu i ystyried yr ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i’w hymgyngoriad ar Parthau Cadwraeth Morol ac i gynghori ar y ffordd ymlaen ar gyfer y broses ddynodi. Cadeirydd y grŵp rhanddeiliaid fydd y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Peter Davies a bydd yn cyflwyno ei adroddiad erbyn Ebrill 2013. Bydd y Tîm Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Gwyddor Dyframaeth ac uned forol ac uned bysgodfeydd Llywodraeth Cymru.⁵³

⁵² [Llywodraeth Cymru, Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru, 21 Rhagfyr 2012](#)

⁵³ <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/marineconservationzones/?skip=1&lang=cy>

Barn y Pwyllgor

Yr ardaloedd morol gwarchoddedig presennol

109. Mae nifer o randdeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch statws amgylcheddol y parthau morol gwarchoddedig presennol a'r rheolaeth a mesurau gorfodi ar eu cyfer. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith.

110. Nid yw adroddiad Llywodraeth Cymru ar ardaloedd morol gwarchoddedig⁵⁴ yn cynnig llawer heblaw manylion am arwynebedd a nifer y safleoedd sydd wedi'u dynodi. Er bod cyfran gymharol fawr o foroedd Cymru wedi'i dynodi, dim ond os yw'r safleoedd wedi'u rheoli'n gywir y bydd hyn yn arwyddocaol. Prin yw'r sôn yn yr adroddiad am statws yr ardaloedd a ddynodwyd ac nid yw hynny'n foddhaol yn ein barn ni. Rydym yn derbyn bod anawsterau ynglŷn â phennu cyflwr ardaloedd morol gwarchoddedig a bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i asesu eu cyflwr. Mae mwy na thair blynedd ers pasio Deddf y Môr a chredwn y dylasai Llywodraeth Cymru fod mewn lle i gynnig adroddiad llawnach i'r Cynulliad. Prif bwrpas yr adroddiad dan Ddeddf y Môr yw adrodd ar barthau morol gwarchoddedig. Mae'r ffaith nad oes dim un ohonynt yng Nghymru, a bod cryn ffordd i fynd cyn dynodi Parthau Cadwraeth Morol, yn dangos diffyg cynnydd ar ran Llywodraeth Cymru ar weithredu Deddf y Môr.

111. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cychwyn Rhan V o Ddeddf y Môr, bydd yn ofynnol iddi adrodd i'r Cynulliad ar sail cylch chwe blynedd. Mae'r cylch hwn yn caniatáu adrodd i'r Cynulliad yn y flwyddyn cyn cyflawni'r ddyletswydd i adrodd dan Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Er y bydd cylch chwe blynedd yn rhesymol ar ôl gwneud trefniadau digonol i reoli ardaloedd morol gwarchoddedig a phennu llinell sylfaen ar gyfer mesur cynnydd, nid ydym wedi cyrraedd y man cychwyn hwnnw eto. Felly, er ein bod yn credu y dylid glynu wrth y cyfnod chwe blynedd ar gyfer adrodd, rydym hefyd yn credu y dylid cyflwyno adroddiad interim i'r Cynulliad a fydd yn rhoi arfarniad cywirach o statws amgylcheddol yr ardaloedd morol gwarchoddedig presennol, a'r mesurau rheoli a gwarchod ar eu cyfer, o fewn y 12 mis nesaf. Mae'n bosibl y bydd canlyniad yr adrodd dan Erthygl 17 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn 2013 yn gyfle i ddarparu adroddiad o'r fath.

⁵⁴ [Llywodraeth Cymru, Adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru, 21 Rhagfyr 2012](#)

112. Yn 2007, barnwyd bod mwy na 50 y cant o'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn cyflwr anffafriol. O ystyried hyn ochr yn ochr â'r adroddiad diweddar gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig lle y nodwyd bod materion sy'n rhwystro rheolaeth effeithiol yn yr holl Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru, rydym yn pryderu ynghylch statws presennol yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru, er nad yw eu cyflwr wedi'i werthuso'n briodol yn y blynyddoedd diwethaf, fel yr ydym yn cydnabod uchod.

113. Credwn y dylid bod wedi ymestyn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig cyn hyn, gan fod cytundeb i wneud hynny wedi'i sicrhau fwy na phedair blynedd yn ôl. Rydym yn croesawu'r camau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd, ond rhaid iddynt fod yn gamau buan. Rydym yn disgwyl gweld cwblhau'r estyniadau i Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig erbyn diwedd Ebrill 2013, a gweld cyhoeddi manylion y trefniadau ar gyfer rheoli a monitro'r ardaloedd hyn yn y dyfodol.

Argymhelliad 7: Erbyn diwedd Mawrth 2013, bod Llywodraeth Cymru yn cwblhau ei gwaith ar ymestyn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig presennol. Rydym yn disgwyl gweld manylion am y ffordd o gyflawni hyn yn ei hymateb i Argymhelliad 2 uchod.

114. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar 21 Rhagfyr rydym yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad yn y dyfodol agos am y ffordd y mae'n bwriadu symud ymlaen â'r argymhellion a wnaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ei adolygiad o reolaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Argymhelliad 8: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad am y ffordd y mae'n bwriadu symud ymlaen â'r argymhellion a wnaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ei adolygiad o reolaeth Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae wedi bod yn ystyried adolygiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru ers Gorffennaf 2012 ac rydym yn disgwyl iddi ymateb cyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gael ei ddiddymu.

Cychwyn Rhan V o Ddeddf y Môr

115. Credwn mai annigonol yw pasio deddfwriaeth sy'n gadael i'r weithrediaeth gychwyn cymalau craffu (a.123(6) ac a.124(1)). Hefyd,

rydym wedi cael ein siomi gan amharodrwydd Gweinidogion i gychwyn Rhan V ar y sail nad ydynt yn gallu bodloni gofynion y rhan hon o Ddeddf y Môr. Mae'n glir i ni fod disgwyl, pan gafodd y Ddeddf hon ei phasio, y byddai Rhan V yn cael ei chychwyn cyn diwedd 2012 oherwydd, fel arall, byddai cymal terfyn amser yn y Ddeddf. Rydym yn annog Gweinidogion Cymru i gychwyn Rhan V cyn gynted â phosibl.

116. Yn ôl yr hyn yr ydym yn ei ddeall, mae amharodrwydd Llywodraeth Cymru i gychwyn Rhan V yn ganlyniad i'r gofyniad yn adran 123(6) i gyhoeddi datganiad o egwyddorion ynghylch cyflawni'r amcanion sydd yn adran 123(2) o fewn dau fis wedi i Adran V ddod i rym.

117. Mae adran 124 o'r Ddeddf yn gofyn am adroddiad am y graddau y mae'r amcan yn adran 123(2) wedi'i gyflawni. Rydym yn dadlau bod angen darparu'r datganiad o egwyddorion yn unol ag adran 123(6) er mwyn gwneud asesiad boddhaol ynghylch cyflawni'r amcan yn adran 123(2). Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu o'i gwirfodd y bydd yn darparu adroddiad yn unol ag adran 124 o Ddeddf y Môr. Er hynny, nid yw wedi gosod datganiad o egwyddorion gerbron y Cynulliad - sy'n hanfodol ar gyfer paratoi adroddiad dan adran 124 yn ein barn ni. Fel y nodwyd uchod, prif bwrpas yr adroddiad yn adran 124 yw adrodd ar Barthau Cadwraeth Morol. Mae'r ffaith nad oes datganiad o egwyddorion nac unrhyw Barthau Cadwraeth Morol wedi'u dynodi ar ôl mwy na thair blynedd yn dangos pa mor bwysig yw cychwyn Rhan V a bodloni'r gofynion sydd ynddi.

118. Mae hyn yn ein harwain i gredu nad yw Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r broses o weithredu Deddf y Môr yn dda. Mae geiriad adrannau 123 a 124 o Ddeddf y Môr yn dangos yn glir y dylai Rhan V fod wedi'i chychwyn, oherwydd dylai'r datganiad o egwyddorion a'r adroddiad dan adran 124 fod wedi'u gosod gerbron y Cynulliad erbyn diwedd 2012. O ganlyniad i ohirio cychwyn Rhan V, mae darpariaethau pwysig ar gyfer atebolrwydd democrataidd wedi'u hosgoi ac mae'r amserlen ar gyfer cyflawni ymrwymïadau wedi'i gohirio'n hirach na'r hyn sy'n rhesymol yn ein barn ni, ac ym marn rhanddeiliaid.

119. Hefyd, mae'n glir o ddarllen rhai o'r ymatebion ysgrifenedig a gawsom nad oedd rhai rhanddeiliaid yn ymwybodol bod y Rhan hon o Ddeddf y Môr heb gael ei chychwyn eto. Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r cyfathrebu ynghylch gweithredu gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn fwy effeithiol.

Argymhelliad 9: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cychwyn Rhan V o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Rydym yn disgwyl iddi bennu dyddiad ar gyfer ei chychwyn wedi iddi ystyried canfyddiadau'r grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Ebrill.

Argymhelliad 10: Erbyn 31 Rhagfyr 2013, y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod adroddiad gerbron y Cynulliad o'i gwirfodd sy'n bodloni'r gofyniad yn adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Dylai'r adroddiad hwn gynnwys arfarniad o statws amgylcheddol, llywodraethu a gorfodi mewn ardaloedd morol gwarchoddedig presennol.

Parthau Cadwraeth Morol

120. Nid yw penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth i brosiect y parthau cadwraeth morol uwchlaw pob agwedd arall ar bolisi morol wedi'i reoli'n dda. Mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.

121. Gellir adfer y sefyllfa hon, ac mae'n ymddangos bod penderfyniad y Gweinidog i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen yn gam i'r cyfeiriad iawn. Pe byddai camau tebyg wedi'u cymryd yn y lle cyntaf, mae'n bosibl na fyddai cymaint o elyniaeth wedi codi yn y cylch cyntaf o ymgynghori. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi o'r cylch cyntaf o ymgynghori a'i bod yn buddsoddi adnoddau digonol i sicrhau ei bod yn ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yng Nghymru yng nghamau nesaf y broses.

122. Rydym yn falch bod cylch gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys ystyriaeth i barthau morol gwarchoddedig heblaw'r rheini sydd wedi'u dynodi'n rhai 'gwarchoddedig iawn' a bod y Gweinidog yn ystyried yr adroddiad *Striking the balance* gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru.⁵⁵ Er bod y Pwyllgor wedi'i galonogi bod yr adroddiad hwn wedi dod yn sail, i bob golwg, i ddeialog newydd rhwng rhanddeiliaid wrth chwilio am ffordd ymlaen, mae'n destun siom ei fod wedi'i gyflwyno o ganlyniad i ymgynghori annigonol gan Lywodraeth Cymru.

⁵⁵ [Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, *Striking the Balance: An Ecosystem-Based Approach for MCZ Management in Wales*, Gorffennaf 2012](#)

123. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru symud ymlaen â'i gwaith ar barthau morol gwarchodedig yng nghyd-destun datblygiadau eraill ym maes polisi morol, fel rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig presennol a chynllunio gofodol morol.

124. Byddai derbyn Argymhelliad 2 uchod yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gynnwys gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen mewn cynllun gweithredu cyffredinol.

Parthau cadwraeth y môr mawr

125. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhanddeiliaid, yn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hystyried wrth ddatblygu parthau cadwraeth y môr mawr a pharthau cadwraeth mewn dyfroedd cyfagos. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddynodi'r parthau hyn byddant yn cael effeithiau arwyddocaol ar ddyfroedd Cymru ac, yn achos parthau'r môr mawr, bydd yn gyfrifol am fesurau gorfodi ar eu cyfer. Mae'n anodd gweld sut y gall rhwydwaith Cymru gyfrannu at rwydwaith cydlynol o ardaloedd gwarchodedig ledled y DU, yn unol â gofynion Deddf y Môr a Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, heb ymgysylltu'n well â'r broses hon.

126. Mae'n ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru os yw unrhyw ran o Barth Cadwraeth Morol arfaethedig o fewn dyfroedd môr mawr Cymru. Pan gaiff y Gweinidog hysbysiad o'r fath, rydym yn gofyn iddo hysbysu'r Pwyllgor hwn ac egluro sut y mae'n bwriadu ymateb i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Argymhelliad 11:

(a) Bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y broses ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol ar y môr mawr ac yn hwyluso trefniadau ar gyfer mewnbyn gan rhanddeiliaid Cymru i'r prosesau hyn.

(b) Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch y bwriad i greu Parth Cadwraeth Morol yn nyfroedd môr mawr Cymru, bod Llywodraeth Cymru yn ein hysbysu am hyn drwy lythyr ac yn disgrifio'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ystyried buddiannau Cymru.

6. Trwyddedu morol

Mae parch mawr tuag at Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru a dylid cadw arbenigedd a phrofiad yr uned hon.

Barn rhanddeiliaid

Blaenoriaeth

127. Mae nifer o randdeiliaid wedi mynegi pryder ynghylch trosglwyddo swyddogaethau trwyddedu morol o Lywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan Gymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain, y Royal Yachting Association, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Ystad y Goron a Phartneriaeth Môr Hafren cafwyd canmoliaeth i waith Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru a mynegwyd pryder y byddai profiad ac arferion gweithio da yr Uned hon yn cael eu colli pe byddai swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo. Mae'r Royal Yachting Association yn datgan ar y bedwaredd dudalen yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“The RYA and WYA remain supportive of the WG’s more streamlined approach to marine licensing. Work continues to embed the finer details of the new system within the Marine Consents Unit (MCU) however the feedback we have received from our members to date indicates generally a good level of service. The staff at the MCU have gained a considerable amount of experience in dealing with licensing in the marine environment and this expertise is fundamental to the successful running of this unit. We have in the past raised concerns about the proposals to migrate this function across to the new Single Environmental Body (SEB) and we echo them here. Unless the existing MCU staff are migrated across to the SEB along with the licensing function we have serious concerns about the loss of expertise and experience. A similar process in England which saw the licensing function moving from the Marine Fisheries Agency (MFA) to the Marine Management Organisation (MMO) caused and continues to cause delays in the licensing process due to a lack of expertise. We would urge

WG to consider this matter seriously in order to avoid a similar outcome for Wales.”⁵⁶

128. Mynegwyd pryder gan Mr Russell ar ran Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau a dywedodd nad oedd wedi cael ymateb gan Lywodraeth Cymru i bryderon yr oedd y gymdeithas honno wedi’u codi yn ystod yr ymgynghori ar sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru:

“Not that I am aware of. There has certainly been no specific response, and I cannot recall there being too much detail in any of the responses to the consultation, either. That is partly because—and this goes back almost to the beginning of our discussion—it reflects the fact that people do not understand the sensitivity there, both in moving a sustainable development delivery function into an organisation that, effectively, has its focus on environmental protection, and also the risks associated with losing the experience that there is within the current unit, which is absolutely key. Potentially, the new organisation could have 20 or 30 new licensing staff, but if they are all starting from scratch, that means that we, from a developer point of view, are starting from scratch.”⁵⁷

129. Yn y dystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Cyswllt Amgylchedd Cymru tynnwyd sylw at rai pryderon ynghylch y Gofrestr Gyhoeddus o geisiadau am drwyddedau morol yng Nghymru:

“The Marine Act requires the establishment of a Public Register containing information on marine licence applications, licences granted and compliance and enforcement, however, at present this takes the form of a pdf document which does not appear to be regularly updated. In contrast, the Marine Management Organisation (MMO) has an online database of marine licence applications that is easily searchable and all current applications are available to view.”⁵⁸

⁵⁶ [Royal Yachting Association, Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Bolisi Morol yng Nghymru, Medi 2012](#)

⁵⁷ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2012 c.108](#)

⁵⁸ [Cyswllt Amgylchedd Cymru, Tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i bolisi morol yng Nghymru, Medi 2012](#)

Barn Llywodraeth Cymru

130. Mae'r memorandwm esboniadol sydd gyda Gorchymyn Drafft Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio dirprwyo swyddogaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer trwyddedu morol i'r corff newydd.⁵⁹

131. Mae trefniadau rheoli prosiect ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i hwyluso'r broses drosglwyddo, ac mae gwella'r gofrestr gyhoeddus yn un agwedd ar y trefniadau hynny.

Barn y Pwyllgor

132. Mae parch mawr gan randdeiliaid tuag at Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru, ac rydym yn canmol staff yr Uned Caniatadau Morol am ennill y parch hwn.

133. Wrth drosglwyddo trwyddedu morol i Cyfoeth Naturiol Cymru, rhaid i Lywodraeth Cymru gadw a datblygu arbenigedd a phrofiad yr Uned hon a rhaid i'r gwasanaeth barhau heb unrhyw ostyngiad yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Rydym yn bwriadu monitro hyn yng nghyswllt ein gwaith presennol ar sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru.

134. Mae'r gofrestr gyhoeddus yn agwedd ar drwyddedu morol y gellir ei gwella ac rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymateb i bryderon rhanddeiliaid yn y maes hwn, a chydweithio â nhw i ddatblygu darpariaeth addas ar y we.

Argymhelliad 12: Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arbenigedd a phrofiad yr Uned Caniatadau Morol yn cael eu cadw a'u datblygu ac na fydd y gwasanaeth yn lleihau wrth ei drosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Argymhelliad 13: Bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ei fod yn datblygu darpariaeth ar-lein addas ar gyfer cofrestr gyhoeddus o drwyddedu morol.

⁵⁹ <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=240569&ds=11/2012>

7. Cyfarwyddebau Ewropeaidd

Nid yw'r cynnydd tuag at gyflawni gofynion cyfarwyddebau Ewropeaidd yn glir.

Barn rhanddeiliaid

Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

135. Mynegwyd pryder gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ynghylch y dangosyddion Statws Amgylcheddol Da sydd wedi'u mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac am y gallu yng Nghymru i gyflawni cam nesaf y Gyfarwyddeb. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn datgan ar dudalen 17 yn ei dystiolaeth:

“Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cyfrannu tuag at gamau ymgynghori allweddol wrth ddatblygu a gweithredu'r Gyfarwyddeb, gan gynnwys ymgynghoriad gweinyddiaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Ngwanwyn 2012 ar gynigion ar gyfer Statws Amgylcheddol Da ac Asesiad Cychwynnol y Deyrnas Unedig. (Dyma ddau ofyniad allweddol cyntaf y Gyfarwyddeb.) Fe ddywedodd y Cyngor Cefn Gwlad, a nifer o sefydliadau eraill, nad yw cynigion y Deyrnas Unedig ar gyfer disgrifiad a thargedau Statws Amgylcheddol Da yn ddigon uchelgeisiol, ac mae hynny'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd rownd gyntaf gweithredu'r Gyfarwyddeb yn arwain at lawer o welliannau yn statws moroedd Cymru a'r Deyrnas Unedig.

“Dan y rheoliadau trosi, sef Rheoliadau Strategaeth Forol 2010, mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am sefydlu rhaglen fonitro a rhaglen o fesurau ar gyfer moroedd Cymru. Un mater sy'n achosi cryn bryder ar hyn o bryd yw'r ffaith nad oes gennym ddigon o adnoddau yng Nghymru i gyflawni camau nesaf y Gyfarwyddeb yn ddigonol.”⁶⁰

136. Mae Cymdeithas Pysgotwyr Cymru yn nodi ar drydedd dudalen ei thystiolaeth fod diffyg eglurder ynghylch y dull o weithredu'r Gyfarwyddeb yng Nghymru'n creu ansicrwydd yn y diwydiant:

⁶⁰ [Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Medi 2012](#)

“The Marine Strategy Framework Directive still presents a huge challenge as its scope and requirement for international cooperation are unprecedented. Here the industry has concerns because so much of the implications of this legislation are still unclear. For example a great deal of work has been done on the assessment, targets and indicators involved in the process towards achieving Good Environmental Status and not the monitoring or any measures deemed necessary. This in itself leaves the industry in a difficult and uncertain position. The documents published so far state that fishing is one of the major pressures on the environment and thus it can be inferred that when measures are contemplated they will impact on fishing, yet no indication as to the extent of these has been given. This is another uncertainty for the industry at the moment.”⁶¹

Integreiddio rhwng Cyfarwyddebau

137. Mynegwyd pryder i’r Pwyllgor gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru am nifer y targedau deddfwriaethol sydd bellach yn gymwysadwy i’r amgylchedd morol:

“Not many years ago there was virtually no regulation in the marine area on environmental matters. Whilst clearly there was a need for some we are now at a point where the amount and type of legislation is confusing and has the potential to be contradictory, it is necessary to strike the right balance. We feel there is a need for clear links to be established between, for example, Habitats and Birds Directives, the Water Framework Directive, the Common Fisheries Policy, the Marine Acts etc, and for policy to determine exact purposes and scope for all of the different ones to avoid contradictory targets being set.”⁶²

138. Yn ei thystiolaeth lafar i’r Pwyllgor, dywedodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru nad oedd canllawiau ar gael i’r diwydiant ar y gwahanol Gyfarwyddebau na’r camau yr oedd angen eu cymryd i gydymffurfio â’r gwahanol ofynion:

⁶¹ [Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Medi 2012](#)

⁶² Ibid

“Mr Evans: James has had many years in the industry and with these processes and is a lot more familiar than I am with them. A lot of this has been a learning process for me, and I think that you have to research these issues for yourself and then try to figure out how one relates to the other. Were there a joined-up approach, as we mentioned in the evidence, that would avoid any potential conflict or confusion in achieving these targets, because a lot of the overarching policies set fairly clear delivery dates, and yet, if this confusion exists, and this depends upon everybody being on the same page to deliver it, surely that will be a hurdle to achieving those dates.

“Ms Horsfall: That is an area where the Welsh Government has a distinct advantage, because it is often just a question of scale. When you are looking at such an intimate setting as Wales and the Welsh Government, you can have people who are specialists but they do not necessarily have to be in separate departments—they can all work together, which can be a distinct advantage—whereas when you are looking at the CFP or MSFD, they are dealt with by completely different departments within the European Commission. Those departments do not talk to each other on a daily basis and those officials do not understand what is going on. Wales can be at a distinct advantage there: we feel that we could have the co-ordination that is not necessarily apparent in other administrations.”⁶³

Barn Llywodraeth Cymru

139. Yn ei phapur i'r Pwyllgor, gwnaeth Llywodraeth Cymru y sylwadau canlynol am y Cyfarwyddbau Ewropeaidd y mae'n ddarostyngedig iddynt:⁶⁴

Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

140. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

“Fel awdurdod cymwys y gyfarwydddeb ar gyfer dyfroedd mewndirol Cymru, rydyn ni'n ymrwymo i chwarae'n rhan i

⁶³ [Cofnod y Trafodion 8 Tachwedd 2012 c.175-6](#)

⁶⁴ [Llywodraeth Cymru, Papur ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 28 Tachwedd 2012 : Ymchwiliad i'r polisi morol, 28 Tachwedd 2012](#)

helpu i sicrhau Statws Amgylcheddol Da. Bydd gweithredu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin newydd a pharhau i weithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd eraill, fel y Cyfarwyddebau Dŵr, Pysgod Cregyn, Cynefinoedd ac Adar yn chwarae rhan fawr o ran sicrhau Statws Amgylcheddol Da. Nid yw'n amlwg eto pa gamau penodol i Gymru y bydd angen eu cymryd i helpu i sicrhau Statws Amgylcheddol Da gan nad yw'r raddfa ofodol ar gyfer asesu wedi'i phennu. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y ffordd y byddwn ni (a gweddill y DU) yn defnyddio'n pwerau i ddatblygu a gweithredu'n polisiau cynllunio morol a chadwraeth natur morol, gan gynnwys ardaloedd morol gwarchoddedig, yn allweddol bwysig waeth beth fydd y raddfa ofodol."

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

141. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

"Fel yr awdurdod cymwys ar gyfer rhoi Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr ar waith yng Nghymru a Lloegr, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am lunio Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn unol ag egwyddorion a chymau'r broses gynllunio fel y'u hamlinellir gan Lywodraeth Cymru a Defra.

"Cymeradwyodd y Gweinidog (ac Ysgrifennydd Gwladol y DU ar gyfer cynlluniau trawsffiniol) y Cynlluniau Rheoli Basn Afon cyntaf ym mis Rhagfyr 2009. Yng Nghymru, dangosodd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon cyntaf mai dim ond 33% o'n cyrff dŵr oedd yn dda yn 2009, ac y byddai hyn yn codi i 41% erbyn 2015. Ein huchelgais yw cyrraedd 50% a gweithio i gyflawni amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig fel safleoedd Natura 2000 a dyfroedd ymdrochi.

"Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn dilyn cylch 6 blynedd. Caiff cynlluniau pellach eu cyhoeddi yn 2015 a 2021."

Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi

142. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

"Mae'r Gyfarwyddeb wedi cael ei diwygio i osod safonau microbiolegol sy'n llymach na'r rhai a bennwyd drwy Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi 1976, a bydd angen eu

bodloni erbyn 2015. Ar sail samplau bacteriolegol dros bedair blynedd (yn hytrach na blwyddyn fel sy'n ofynnol yn y Gyfarwyddeb bresennol), caiff dyfroedd eu cyfrif yn rhagorol, yn dda, yn ddigonol neu'n wael.

“Rydyn ni mewn cyfnod pontio ar hyn o bryd rhwng y ddwy Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi. Mae gofynion y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi bresennol yn newid yn raddol i adlewyrchu gofynion y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi ddiwygiedig rhwng nawr a 2015.”

Y Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar

143. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

“Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i nodau cyffredinol y Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar Gwylt, sef amddiffyn ecosystemau morol drwy ddiogelu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd pwysig sy'n rhan o'r ecosystemau hynny, a gweithio tuag at sicrhau'u statws cadwraeth ffafriol. Rydyn ni'n gwneud hyn yn bennaf drwy drefnau rheoleiddio yn bennaf a thrwy bennu ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig (ar gyfer adar) drwy'r Gyfarwyddebau.

Adroddiadau Erthygl 17

“Bob chwe blynedd, mae'n ofynnol yn ôl Erthygl 17 y Gyfarwyddeb i Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd adrodd ar weithredu'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn cydlynu adroddiad y DU gyda chyfraniad gan asiantaethau natur y gwahanol wledydd, gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Canolbwyntiodd y cylch adrodd cyntaf ar weithredu'r Gyfarwyddeb a'r ail ar asesu cyflwr safleoedd gwarchodedig. Disgwylir y trydydd adroddiad yn 2013. Diben y trydydd adroddiad yw asesu statws cadwraeth yr holl gynefinoedd a rhywogaethau yn y Gyfarwyddeb, gyda gwybodaeth ar yr amgylchedd ehangach yn hytrach na dim ond safleoedd gwarchodedig.

“Bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, yn defnyddio canlyniad yr ail adroddiad Erthygl 17 i adolygu a blaenoriaethu'r camau y mae angen i ni eu cymryd yng Nghymru ynghylch statws cadwraeth

cynefinoedd a rhywogaethau morol Ewropeaidd, gan gynnwys y trefniadau rheoli ar gyfer ardaloedd morol gwarchoddedig, a'u hintegreiddio gyda strategaethau ehangach fel cynllunio morol a *Cynnal Cymru Fyw*.”

144. Mynegodd Llywodraeth Cymru gydymdeimlad hefyd â'r pryder a nodwyd gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru am gymhlethdod y gofynion amrywiol mewn gwahanol gyfarwyddebau, ac ymrwymodd i wneud mwy i roi gwybod am y gofynion hyn i randdeiliaid.⁶⁵

Barn y Pwyllgor

145. Mae'n anodd asesu a fydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau Ewropeaidd neu beidio, gan nad yw gwybodaeth ddigonol ar gael ar hyn o bryd. Mae'r ansicrwydd hwn yn peri pryder i ni oherwydd gall amserlenni ar gyfer cyflawni newid yn yr amgylchedd morol fod yn hir, ac mae'r amser sydd ar gael i gyflawni rhwymedigaethau Ewropeaidd yn mynd yn llai.

146. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru wrth ymateb i Argymhelliad 2 yn egluro sut y bydd yn cyflawni gofynion pob un o'r Cyfarwyddebau Ewropeaidd sy'n ymwneud â'r amgylchedd morol.

147. Bydd yr adroddiadau dan Erthygl 17 yn 2013 yn rhoi darlun gwell i ni o statws amgylcheddol yr ardaloedd morol gwarchoddedig yng Nghymru ac rydym yn bwriadu ailedrych ar hyn pan fydd y wybodaeth hon ar gael.

148. Byddai llunio'r cynllun gweithredu morol yr ydym yn ei argymhell uchod yn ffordd ddefnyddiol o roi gwybod am y gwahanol ddyletswyddau ac am y camau gweithredu y mae angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflawni eu cymryd i gwrdd â'r dyletswyddau hyn.

⁶⁵ [Cofnod y Trafodion 28 Tachwedd 2012 c.176](#)

Atodiad A – Cylch Gorchwyl

Diben yr ymchwiliad hwn yw:

- asesu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran gweithredu *Deddf y Môr 2009*, yn benodol, mewn cysylltiad â phwerau cadwraeth forol a chynllunio gofodol morol y Ddeddf;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru tuag at gyflawni ei chyfrifoldebau Ewropeaidd yn y maes hwn, yn arbennig o ran y Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, y Gyfarwyddeb Adar, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y Gyfarwyddeb Ansawdd Dŵr Ymdrochi a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried:

- pa gynnydd a wnaed i ddatblygu cynlluniau gofodol morol ar gyfer Cymru?
- beth yw statws ardaloedd morol gwarchoddedig Cymru ar hyn o bryd, a pha rôl a ddylai'r parthau cadwraeth morol newydd ei chael o ran y rhwydwaith o ardaloedd gwarchoddedig hyn?
- datblygiad swyddogaethau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â thrwyddedu morol a physgodfeydd, ac ystyried a fu'n effeithiol?
- pa gynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru i weithredu cyfarwyddebau Ewropeaidd allweddol?
- a oes digon o gydgysylltiad a chyd-weithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau cyfagos iddi, mewn cysylltiad â rheoli'r moroedd?
- a oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau ariannol a staff i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran polisi a deddfwriaeth forol?
- a yw rhanddeiliaid wedi cael eu cynnwys yn ddigonol yn y gwaith o lunio polisiau newydd a datblygu deddfwriaeth?

Atodiad B - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau'r cyfarfodydd yn

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=1308>

4 HYDREF 2012	
Sesiwn 1	
Dr Peter Jones	Coleg Prifysgol Llundain
Yr Athro Lynda Warren	
Sesiwn 2	
Sibylle Grohs	Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr Amgylchedd, y Comisiwn Ewropeaidd
Astrid Schomaker	Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr Amgylchedd, y Comisiwn Ewropeaidd
18 HYDREF 2012	
Sesiwn 3	
Gill Bell	Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Dan Crook	WWF Cymru
Gareth Cunningham	RSPB Cymru
Beth Henshall	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
8 TACHWEDD 2012	
Sesiwn 4	
Tonia Forsyth	Fforwm Arfordir Sir Benfro
Paul Parker	Partneriaeth Aber Hafren

Sesiwn 5	
David Harding	Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol
Mark Russell	Marine Aggregates
Sesiwn 6	
Jim Evans	Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
Sarah Horsfall	Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
James Wilson	Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
Sesiwn 7	
Steven Morgan	Cymdeithas Hwyllo Cymru
Caroline Price	Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol
Sesiwn 8	
Olivia Burgess	Ystâd y Goron
David Tudor	Ystâd y Goron
Dr Mary Lewis	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Morgan Parry	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
28 TACHWEDD 2012	
Sesiwn 9	
John Griffiths AM	Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Matthew Quinn	Llywodraeth Cymru
Julia Williams	Llywodraeth Cymru

Atodiad C - Tystiolaeth Ysgrifenedig

Cafwyd y dystiolaeth ysgrifenedig ganlynol. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=4412>

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol & Cymdeithas Hwyllo Cymru	MP 1
Blaise Bullimore, Sue Burton & Jen Reis	MP 2
RSPB Cymru	MP 3
Fforwm Arfordir Sir Benfro	MP 4
Cymdeithas Chwareon Cymru	MP 5
Ymddiriedolaethau Natur Cymru	MP 6
Grŵp Partneriaeth Tirwedd Cymru	MP 7
Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain	MP 8
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	MP 9
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	MP 10
Parciau Cenedlaethol Cymru	MP 11
CRAGEN Llŷn a Môn	MP 12
Cyswllt Amgylchedd Cymru	MP 13
Partneriaeth Aber Hafren	MP 14
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol	MP 15
WWF Cymru	MP 16
Ystâd y Goron	MP 17
Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru	MP 18
Cymdeithas Pysgotwyr Cymru Cyf	MP 19